**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (Y BALA, GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU A THERFYN CYFLYMDER 40 MYA DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn i hwyluso cynnal Triathlon y Bala ar gefnffordd yr A494 rhwng y Bala a Rhyd-y-main yn Sir Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio cerbydau'r digwyddiad, cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a cherbydau'r gwasanaethau brys, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Pennir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

ii) gosod terfyn cyflymder 40 milltir yr awr dros dro (gydag esemptiad ar gyfer cerbydau'r gwasanaethau brys) ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. (Bydd y terfyn cyflymder dros dro yn weithredol drwy gydol y digwyddiad).

Rhoddir ystyriaeth i ailagor y ffordd fesul cam cyn i gyfnod y digwyddiad ddod i ben os bydd yn ddiogel gwneud hynny.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad a bennir yn Atodlen 1 a 3, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol rhwng 09:00 o'r gloch a 14:00 o'r gloch ar 1 Medi 2024.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A494 TRUNK ROAD (BALA, GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES AND 40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to facilitate the holding of the Bala Triathlon event on the A494 trunk road between Bala and Rhydymain in the County of Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily:

i) prohibit all vehicles, other than event vehicles, public service vehicles and emergency services vehicles, from proceeding along the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are specified in Schedule 2 to this Notice.

ii) impose a 40 miles per hour speed limit (with exemption for emergency services vehicles) on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Notice. (The temporary speed limit will be in place for the duration of the event).

Consideration will be given to re-opening the road in stages before completion of the event period if safe to do so.

The prohibition and restriction specified in Schedule 1 and 3, that will be signed accordingly, are expected to operate between 09:00 hours and 14:00 hours on 1 September 2024.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 12 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ganolfan Hamdden Penllyn, y Bala, i gyfeiriad y de-orllewin hyd at bwynt 6 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd Dosbarth 3 sy'n arwain at Ryd-y-main ger Ysgol Ieuan Gwynedd. Sicrheir bod cerddwyr yn cael mynd i fangreoedd.

## ATODLEN 2
## Llwybrau Eraill

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de yr effeithir arnynt wrth gau'r ffordd fydd ar hyd yr A4212 tua'r gorllewin o'r Bala i Drawsfynydd ac yna ar hyd yr A470 tua'r de o Drawsfynydd i Ddolgellau i ailymuno â'r A494. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd. Bydd pob cerbyd gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei hebrwng ar hyd y ffordd sydd ar gau gan y cwmni sy'n rheoli'r traffig.

## ATODLEN 3
## Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 198 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4212, am bellter o 500 metr tua'r gogledd-ddwyrain.

## SCHEDULE 1
## Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the A494 trunk road that extends from a point 12 metres south-west of the centre-point of its junction with the road leading to Penllyn Leisure Centre, Bala in a south-westerly direction to a point 6 metres north-east of its junction with the Class 3 road leading to Rhydymain near Ysgol Ieuan Gwynedd. Pedestrian access to premises will be maintained.

## SCHEDULE 2
## Alternative Routes

The alternative route for southbound vehicles affected by the closure will be via the A4212 westbound from Bala to Trawsfynydd and the A470 southbound from Trawsfynydd to Dolgellau to re-join the A494. Vice versa for northbound vehicles. Public service vehicles will be escorted through the closure by the traffic management company.

## SCHEDULE 3
## Temporary 40 mph speed limit

The length of the A494 trunk road that extends from a point 198 metres north-east of the centre-point of its junction with the A4212 for a distance of 500 metres in a north-easterly direction.